**Mae prosiect teimladwy a fydd yn cyfleu realiti llym y Rhyfel Byd Cyntaf wedi derbyn grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.**

Mae Archifau Ynys Môn ac Oriel Ynys Môn ar hyn o bryd yn gweithio gyda'i gilydd ar arddangosfa o'r enw 'Bara Brith a Menyn Cartref'; ac maent newydd gael hwb ariannol o £6,300 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Trwy greu arddangosfa o gofnodion archifol a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Mawr, nod y prosiect yw adrodd hanesion trigolion Ynys Môn yn ystod y gwrthdaro. Bydd eitemau a roddwyd gan y cyhoedd, sy'n cynnwys llythyrau caru oddi wrth filwr at ei wraig yn ôl adref yn Ynys Môn, ac eitemau o'r amgueddfa a'r casgliad archifau, yn cael eu harddangos yn Oriel Ynys Môn o 16 Gorffennaf 2016. Bydd yr arddangosfa hefyd yn cael ei rhannu gyda'r gymuned trwy ddau ddiwrnod agored arbennig a chyfres o weithdai ysgrifennu creadigol a gweithdai celf rhwng cenedlaethau.

Bydd y dyddiau agored i'r gymuned yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Ebeneser, Llangefni a Neuadd y Dref Caergybi er mwyn rhoi cipolwg i drigolion Ynys Môn ar y gwrthrychau a fydd i'w gweld yn yr arddangosfa. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys plant ysgol a grŵp Heneiddio'n Dda o'r ynys a fydd yn gweithio ar y cyd gydag arlunydd i greu gwaith celf a gwaith ysgrifennu creadigol a ysbrydolwyd gan y gwrthrychau sy'n cael eu harddangos.

Mae'r arddangosfa 'Bara Brith a Menyn Cartref' yn cymryd ei henw o lythyr lle mae milwr yn dyheu am y cysur cartref y mae'n hiraethu cymaint amdano (bara brith gyda menyn cartref). Trwy arddangos casgliad o lythyrau sydd ar fenthyg ar gyfer yr arddangosfa hon, mae'r prosiect yn gobeithio dangos grym archifau a gwrthrychau wrth adrodd stori. Bydd y gweithdai celf ac ysgrifennu creadigol sy'n cyd-fynd â'r arddangosfa yn rhoi'r cyfle i blant ac oedolion ddysgu mwy am y profiadau ar Ynys Môn yn ystod y cyfnod cythryblus hwn a hefyd yn gadael iddynt ymateb iddo trwy gelf a rhyddiaith.

Dywedodd y Prif Archifydd Hayden Burns "Rydym yn hynod falch o fod wedi derbyn y grant hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac rydym yn ffyddiog y bydd yr arddangosfa a'r gwaith cysylltiedig gyda'r gymuned yn cynnig persbectif newydd ar y cyfnod pwysig hwn mewn hanes. Drwy weithio gyda phartneriaid yn y gymuned, byddwn yn medru rhannu ein casgliadau gyda chynulleidfa ehangach."

Ychwanegodd y deilydd portffolio ar gyfer Dysgu Gydol Oes, y Cynghorydd Kenneth Hughes, "Bydd yr arddangosfa yn taro golwg hynod werthfawr ar fywyd ar flaen y gad ac yn y cartref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Hoffwn ddiolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am ei chefnogaeth ac rwy'n edrych ymlaen at ymweld â'r arddangosfa pan fydd yn agor ym mis Gorffennaf. Rwy'n sicr y bydd hi'n arddangosfa deimladwy iawn, ond yn un boblogaidd ymhlith nifer o drigolion ac ymwelwyr Ynys Môn fel ei gilydd. "

Dywedodd Pennaeth CDyL yng Nghymru, Richard Bellamy: "Roedd effaith y Rhyfel Byd Cyntaf yn bellgyrhaeddol, yn cyffwrdd ym mhawb ac yn siapio pob cornel o'r DU a thu hwnt. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri eisoes wedi buddsoddi mwy na £70 miliwn mewn prosiectau – mawr a bach – sy'n nodi'r Canmlwyddiant hwn. Diolch i'r Loteri Genedlaethol mae ein rhaglen grantiau bach, *Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw,* yn golygu y gall mwy byth o gymunedau fel y rhai sy'n ymwneud â'r prosiect Bara Brith a Menyn Cartref ymchwilio i etifeddiaeth oesol y gwrthdaro hwn ac mae'n gymorth i ehangu dealltwriaeth pobl o sut mae'r cyfnod wedi siapio ein byd modern."

**Nodiadau ar gyfer y golygydd**

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri a chymorth ar gyfer treftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf**

- O'r archaeoleg o dan ein traed i'r parciau a'r adeiladau hanesyddol rydym yn eu caru, o atgofion a chasgliadau gwerthfawr i fywyd gwyllt prin, rydym yn defnyddio arian chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i helpu pobl ar draws y DU archwilio, mwynhau a gwarchod y dreftadaeth sy'n agos i'w calon. www.hlf.org.uk .

- Hyd yma, mae £70 miliwn mewn grantiau CDL wedi cael ei ddyrannu i fwy na 1300 o brosiectau ar draws y DU fel y gallant nodi'r Canmlwyddiant ac archwilio pob agwedd ar dreftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf sy'n bwysig iddyn nhw. Trwy ei raglen *Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw*, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn sicrhau bod o leiaf £1 miliwn ar gael bob blwyddyn am chwe blynedd tan 2019. Mae'n darparu grantiau o rhwng £3,000 a £10,000 sy'n fodd i gymunedau a grwpiau ar draws y DU archwilio, gwarchod a rhannu eu treftadaeth sy'n deillio o'r Rhyfel Byd Cyntaf a dyfnhau eu dealltwriaeth o effaith y rhyfel. I gael gwybod sut i wneud cais am gyllid, ewch www.hlf.org.uk/thenandnow. Os bydd grŵp angen grant o fwy na £10,000 ar gyfer prosiect Rhyfel Byd Cyntaf, gall wneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri trwy ei rhaglenni agored www.hlf.org .uk/firstworldwar

- I ymuno â'r sgwrs ar gyfryngau cymdeithasol defnyddiwch # understandingww1

Ceri Williams

CeriAWilliams@ynysmon.gov.uk

01248 752189